Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 318 – 22 Ionawr 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 317
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 317.

2. Adroddiad y Cadeirydd
Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod gydag Arthur Emyr, pennaeth digwyddiadau mawr y Cynulliad, roedd yn awyddus i drafod cyfleoedd i gydweithio gydag S4C.

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu digwyddiad cyhoeddi Cynllun Blynyddol Ofcom yn ddiweddar.

Mae'r DCMS ar hyn o bryd ynghanol y broses o benodi Aelod newydd i'r Awdurdod i olynu Carys Howell. Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Cyfeiriodd IJ at y gydnabyddiaeth yn Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus i rôl S4C.

Nododd ei bod wedi cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Paul Murphy.

Cyfeiriodd at y broses o gynnig y bedwaredd ffrwd fideo ar gyfer gwasanaethau manylder uwch ar Blethiad B. Mae Ofcom wedi cychwyn y broses trwyddedu.

Nododd IJ fod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi bod yn ystyried nifer o faterion strategol yn sgil y newidiadau economaidd a'r effeithiau posib ar S4C.

Nododd IJ fod swyddogion wedi trafod awgrymiadau'r Awdurdod ar gyfer y Polisi Amddiffyn Plant a Phobl Bregus yn dilyn cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad ac Argymhellion y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth
- Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol 2008
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil